Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

# Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru

Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 24 Mehefin 2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38003 ISBN digidol 978-1-83876-450-0

## Sut i fesur cynnydd?

Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru fel sy'n ofynnol o dan adran 11(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

---

**Cyflwyniad**

O dan adran (11)(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y gellir eu cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon; (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhaid i ddangosydd cenedlaethol gael ei fynegi fel gwerth y gellir ei fesur neu nodwedd y gellir ei mesur yn feintiol neu’n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol. Caiff fod yn fesuradwy dros ba gyfnod bynnag sy’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru a chaiff fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

Gallwch weld rhagor o fanylion am y gofynion yma
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh

**Nodwch:**
Mae'r 10 dangosydd cenedlaethol a gyhoeddwyd ac a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar X Mehefin 2019 i'w darllen ar y cyd â'r ddogfen wybodaeth dechnegol ar y dangosyddion cenedlaethol (*Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru: Dogfen Dechnegol*, Mehefin 2019) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth dechnegol ategol ar bob dangosydd, gan gynnwys o ble y bydd y data'n deillio.

Dyma'r set gyntaf o Ddangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd ar y cyd â rhanddeiliaid i ddatblygu'r dangosyddion a'r ffynonellau data ymhellach. Y nod yw cynhyrchu set derfynol o Ddangosyddion Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol erbyn haf 2020.

Mae'r 'Dangosyddion Cenedlaethol':

1. Yn cynyddu nifer yr achosion y rhoddir gwybod am bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
2. Yn cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pob rhan o’r gymdeithas fod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn annerbyniol

3. Yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru o bwysigrwydd cydberthynas diogel, cyfartal ac iach
4. Yn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc fod cam-drin yn anghywir bob amser
5. Yn sicrhau bod mwy o achosion sy’n gysylltiedig â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at arestiadau, erlyniadau ac euogfarnau
6. Yn sicrhau bod ymyrraeth briodol ar gael i gyflawnwyr
7. Yn sicrhau bod ymyrraeth gynnar effeithiol ar sail tystiolaeth i ddioddefwyr a goroeswyr ar gael sy'n gyfartal i bawb a’u bod yn gallu manteisio’n gyfartal ar y ddarpariaeth
8. Yn sicrhau bod y rhai mewn swyddi perthnasol yn cael hyfforddiant i adnabod achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymateb yn briodol iddynt
9. Yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol
10. Yn cynyddu hyder dioddefwyr a mynediad i gyfiawnder